# Canllawiau i Fyfyrwyr sy'n Mentora ac yn cael eu Mentora ar gynllun 'Ffordd Hyn'

## Diben a Chwmpas Cynllun Mentora 'Ffordd Hyn'

***'... mentora sy'n cael ei ddarparu gan fyfyrwyr  i fyfyrwyr'***

***Mae'r nodiadau hyn yn cael eu rhoi i bob myfyriwr sy'n mentora ac yn cael ei fentora/mentora, er mwyn amlinellu natur a chwmpas y cynllun 'Ffordd Hyn':***

cynlluniwyd 'Ffordd Hyn' i gynorthwyo myfyrwyr i wneud y mwyaf o'u hamser yn y Brifysgol.

Anelir y cynllun yn bennaf at fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf (er bod croeso i unrhyw fyfyriwr ei ddefnyddio) ac mae'n wasanaeth cyfeillgar, cyfrinachol, rhad ac am ddim sy'n rhoi cymorth ar bob agwedd ar fywyd prifysgol.

Gall y Cynllun Mentora gynorthwyo myfyrwyr i:

- Ymgyfarwyddo â bywyd Prifysgol
- Cyflawni eu potensial
- Cynllunio am eu dyfodol
- Manteisio i'r eithaf ar eu hamser yn y Brifysgol

Cynllun mentora gan gymheiriaid yw 'Ffordd Hyn' ac mae'r mentoriaid naill ai'n israddedigion ar eu blwyddyn olaf, neu'n uwchraddedigion. Gall y Cynllun Mentora gynorthwyo myfyrwyr gydag unrhyw agwedd ar fywyd prifysgol, boed yn academaidd, yn gymdeithasol neu'n ariannol. Bydd mentoriaid y cynllun yn gyswllt at wasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr yn y brifysgol, a gallant hefyd eich cynorthwyo i gael trefn ar eich astudiaethau a'ch ysgogi eich hun.

### Sut mae'n gweithio?

Y trefniant arferol yw bod un myfyriwr yn cael tri chyfarfod cyfrinachol yn bersonol â'r mentor bob semester a chael cefnogaeth trwy negeseuon e-bost rhwng y cyfarfodydd. Wedi dweud hynny, mae'r cynllun yn un hyblyg, gall gofynion pob myfyriwr amrywio a gellir rhoi cymorth ar sail fwy rheolaidd. Hefyd, bydd rhai o fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn ymgartrefu'n gyflym yn y Brifysgol a gallant benderfynu ar ôl cyfarfod neu ddau nad ydynt angen Mentor bellach.

### Beth yw cwmpas cynllun 'Ffordd Hyn'?

Ni chynlluniwyd y Cynllun i ddisodli na dyblygu dulliau mwy arbenigol o gymorth sydd i'w cael yn y Brifysgol i'r myfyrwyr. Er enghraifft, ni fydd y Mentoriaid yn gallu ysgrifennu na chywiro traethodau/aseiniadau/gwaith, ond gallant roi cymorth cyffredinol gyda materion fel rheoli amser, cynllunio a chymhelliant. Os yw'r myfyriwr

angen cymorth mwy manwl neu arbenigol, bydd y mentor yn gallu ei gyfeirio/chyfeirio ymlaen i'r ffynhonnell cymorth briodol yn y brifysgol.

**Cyfrinachedd**

Mae'r cyfarfodydd rhwng myfyrwyr a mentoriaid y Cynllun yn gyfrinachol. Mae'r ddwy ochr yn cytuno ar Log ysgrifenedig (sef crynodeb o bob cyfarfod) a'i lofnodi, ac mae copi yn cael ei roi i Gydlynydd Cynorthwyol y Cynllun yn y Gwasanaethau Cymorth. Ystyr cyfrinachedd yw na fydd unrhyw wybodaeth a roddir gan y myfyriwr yn cael ei ailadrodd, yn ffurfiol nac anffurfiol, wrth unrhyw unigolyn arall ar wahân i'r Cydlynydd Cynorthwyol/Gwasanaethau Cymorth, heb ganiatâd penodol y myfyriwr (oni bai am achosion argyfwng).

**Dewis Mentor ar gyfer myfyriwr**

Mae Mentoriaid y cynllun yn cael eu hyfforddi i ymdrin â phob agwedd ar fywyd Prifysgol. Mae amryw o bethau y byddai myfyrwyr o bosibl angen cymorth ar eu cyfer; er enghraifft, rheoli/trefnu amser, cymhelliant i weithio, cyngor ar agweddau cymdeithasol, a chymorth ymarferol, er enghraifft gyda threfnu cyllid a chreu cyllideb. Os yw'r myfyriwr yn gallu amlinellu'r maes neu feysydd lle mae angen cymorth, fe wnawn ni'n gorau i ganfod Mentor sydd â gwybodaeth neu brofiad perthnasol. Bydd rhai myfyrwyr yn gofyn am Fentor o'r un Adran, a lle bo'n bosib rydyn ni'n ceisio ymateb i hyn yn gadarnhaol, er nad oes gennym bob amser fentoriaid o bob un o adrannau’r Brifysgol.

Caiff y myfyriwr a'r Mentor eu hannog i gysylltu â ni os ydynt yn teimlo nad yw'r broses ddewis wedi gweithio ac fe edrychwn i weld a oes modd trefnu Mentor gwahanol.

**Cefnogaeth i Fyfyrwyr a Mentoriaid y Cynllun**

Caiff y myfyrwyr a'r Mentoriaid eu hannog i gysylltu â Chydlynydd Cynorthwyol y Cynllun yn y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr os oes ganddynt ymholiadau ynglŷn â'r cynllun mentora. Mae cefnogaeth barhaus i'w chael i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth:

Cydlynydd Cynorthwyol y Cynllun Mentora a Gadael Gofal
Cymorth i Fyfyrwyr
Y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr
Prifysgol Aberystwyth
Penglais
Aberystwyth
SY23 3FB Ffôn: 01970 621761 neu 01970 621529
E-bost: fforddhyn@aber.ac.uk